# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 17 Ionawr 2022

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Bob Vaughan, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Geraint Hamer, Llywodraeth Cymru

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Ruth Johnston, CNC

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Chris Thomas, CNC

Fraser McAuley, CLA

Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru

Charlotte Priddy, AHDB

Kate Snow, United Utilities

Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru

Mathew Walters, Llywodraeth Cymru

Adriana Kiss, Llywodraeth Cymru

Nichola Salter, CNC

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Rhys Evans, Chris Clark a Hywel Morgan, Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (Eitem 4)

Fergus O'Brien a Steve Wilson, Dŵr Cymru (Eitem 5)

Mark Squire, CNC (Eitem 5)

John Richards, Hybu Cig Cymru (Eitem 6)

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Sarah Hetherington, CNC

Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.

    - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent ddatgan hefyd a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw fater ar yr agenda.

3. Croesawodd Zoe y gwesteion i'r cyfarfod gan gynnwys Rhys Evans, Chris Clark a Hywel Morgan (Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur), Fergus O'Brien a Steve Wilson (Dŵr Cymru), Mark Squire (CNC) a John Richards (Hybu Cig Cymru).

## Eitem 2 Adolygiad o Gofnodion

4. Ar ôl i’r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno’n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y cofnodion hynny’n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i’r cyhoedd. Felly, mae’n bwysig i’r cofnodion fod yn gofnod cywir o’r cyfarfodydd.

5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2021. Argymhellodd Zoe y dylid cynnwys cam gweithredu ar ôl paragraff 45 yn cyfeirio at yr awgrym i Sarah Hetherington arwain sesiwn ar ei gwaith ar y Strategaeth Economaidd Wledig.

***PG 01 Ionawr: Bronwen Martin, CNC, i drafod ychwanegu pwynt gweithredu ychwanegol yng nghofnodion cyfarfod mis Rhagfyr 2021 gyda Sarah Hetherington ynghylch ei gwaith ar y Strategaeth Economaidd Wledig.***

6. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na gwelliannau pellach mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Rhagfyr.

## Eitem 3 Materion yn Codi

7. Gwahoddodd Zoe y grŵp i drafod unrhyw faterion sy’n deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, Papur Diweddaru neu ddogfennau perthnasol.

8. Ni chodwyd unrhyw faterion yn codi.

## Eitem 4 Cyflwyniad gan y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur

9. Cyflwynodd Rhys Evans y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (NFFN) sy'n rhwydwaith o ffermwyr ledled y DU sydd wedi dod at ei gilydd i hyrwyddo ffordd o ffermio sy'n gynaliadwy ac yn dda i fyd natur a'r amgylchedd. Mae'r rhwydwaith a arweinir gan ffermwyr yn cynnwys grwpiau llywio ym mhob un o'r 4 gwlad sy'n angerddol am y system ffermio hon – Y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur – Ynglŷn â NFFN

10. Yng Nghymru, mae tua 275 o ffermwyr yn aelodau. Mae tri maes allweddol i NFFN, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, ymgysylltu â ffermwyr eraill ac ymgysylltu â'r llywodraeth a llunwyr polisïau.

11. Rhoddodd Chris Clark gyflwyniad ar rai o ganfyddiadau allweddol y gwaith 'Nature Means Business/ Maximum Sustainable Output'. Dywedodd Chris eu bod wedi gweld dros 100 o ffermydd ledled y DU a'u bod wedi canfod, pan fo ffermio ar ei fwyaf proffidiol, mae natur ar ei werth mwyaf posibl. Dywedodd Chris fod man arbennig lle mae ffermio a natur yn cyd-daro, gan arwain at fudd i'r ddwy ochr, a disgrifiodd gyfrifiadau'r ddamcaniaeth hon.

12. Rhoddodd Chris grynodeb o Reolaeth Tir y DU a'r pum cysyniad:

    1) Mae bwyd yn danwydd, yn fath o egni

    2) Mae natur yn gofyn am gydbwysedd gydag unrhyw ddulliau rheoli tir

    3) Oni cheir cydbwysedd, bydd straen ar natur bob amser

    4) Uchafswm Allbwn Cynaliadwy (MSO) yw'r pwynt cydbwysedd rhwng cyfundrefn tir a natur

5) Ni fydd ffermio y tu hwnt i MSO neu ddad-ddofi tir ar lefelau islaw MSO yn osgoi straen pellach ar natur, ac ni fydd modd rhagweld canlyniadau.

13. Amlinellodd Chris fod ffermio'n gweithio o fewn tirwedd a reolir:

- Tirwedd sydd wedi'i drin yn ofalus ers 1,500 o flynyddoedd yn yr ymgais i gael cynnyrch a chynhyrchiant
- Ers 1914, mae'r diwydiant wedi cael ei orfodi i ddarparu allbwn ar bob cyfrif
- Dylai'r dirwedd a reolir fod mewn sefyllfa o gydbwysedd rhwng natur a ffermio masnachol – sefyllfa dechnegol o gydbwysedd ansefydlog yn yr ystyr bod hwsmonaeth, cnwd neu dda byw da yn hanfodol ar gyfer ei gynnal a'i gadw.

14. Dywedodd Chris fod natur yn rhoi heulwen, glaw, ffrwythlondeb a glaswellt am ddim i fusnesau fferm ac esboniodd y 'model amlwg a chyfleus' o sut mae busnesau fferm yn gweithio gyda refeniw a chostau (£) yn erbyn maint allbynnau (£).

15. Y sefyllfa bresennol ym myd ffermio:

Mae'r rhan fwyaf o ffermydd yn gweithio y tu hwnt i MSO -

1) Drwy ddod i lawr i lefelau MSO:
    - Cynyddu graddau bioamrywiaeth
    - Gwella ffrwythlondeb pridd
    - Gwelliannau mewn iechyd anifeiliaid
    - Cynyddu proffidioldeb
2) Rhaid i ostyngiad anochel mewn allbynnau ffermydd (er gwaethaf cynnydd mewn proffidioldeb) gael ei wrthbwyso gan ffocws newydd ar asedau busnes
    - Trin Cyfalaf Naturiol fel cynnyrch y gellir ei farchnata
    - Cynnyrch brand o safon uchel gyda mwy o werth ychwanegol ar y fferm

16. Trafododd Chris gynllunio busnesau fferm yn y dyfodol a thynnodd sylw at y canlynol:

- Hyrwyddo cydbwysedd priodol â natur
- Gwella proffidioldeb
- Dod â'r statws cynhyrchydd nwyddau i ben
- Annog datblygu cynhyrchion gwerth ychwanegol

17. Amlinellodd Hywel Morgan fanteision y dull hwn ar ei fferm ei hun. Mae Hywel yn ffermwr defaid a chig eidion ucheldirol sydd ar gyrion gorllewinol Bannau Brycheiniog. Mae Hywel yn ffermio tua 230 erw (gan gynnwys tir rhent, ac mae'n ymgymryd â phori

cadwraethol). Mae gan Hywel tua 400 o ddefaid, i lawr o tua 560, ac mae ganddo 35 o wartheg sugno.

18. Dywedodd Hywel ei fod wedi ymuno ag NFFN fel aelod o'r grŵp llywio tua 12 mis yn ôl, a oedd yn gyfle gwych iddo gyfarfod â phobl o'r un anian, ac fe'i hysbrydolwyd gan rai o'r ffermwyr y cyfarfu â nhw drwy'r grŵp.

19. Yn 2015, ymunodd Hywel â chynllun Glastir Uwch a rhoi rhai caeau mewn adferiad neu ddim mewnbynnau, nid yn unig ar gyfer y taliad ychwanegol, ond cydnabu Hywel nad oedd y mewnbynnau yr oedd yn eu prynu'n darparu'r elw yr oedd ei angen. Disgrifiodd Hywel sut y rhoddodd y gorau i ddefnyddio gwrtaith yn llwyr dair blynedd yn ôl (roedd yn defnyddio 18-20 tunnell o wrtaith y flwyddyn). I ddechrau, dywedodd Hywel nad oedd yn siŵr ei fod yn gwneud y peth iawn oherwydd pwysau gan gyfoedion, ond roedd yr arbedion cost a brofodd yn ei gwneud yn glir. Disgrifiodd Hywel rai o'r newidiadau eraill y mae wedi'u gwneud, gan gynnwys:

   - Llai o fwyd anifeiliaid – dim ond rhoi bwyd ychwanegol yn ystod ŵyna
   - Llai o ddefnydd o chwistrellau cemegol – mae bellach yn troi'r tir gyn lleied â phosibl, sef dull 'min till' sy'n gweithio'n dda
   - Llai o feddyginiaethau anifeiliaid – roedd yn arfer defnyddio llawer gormod, ond mae triniaethau'n cael eu pennu gan y calendr erbyn hyn. Mae Hywel yn monitro ac yn dadansoddi'r anifeiliaid (nifer yr wyau mewn carthion ac ati) i helpu.

20. O ran pridd, dywedodd Hywel fod gormod o bwyslais o'r blaen ar brofi am nitrogen, ffosffad a photasiwm (NPK) ond mae bellach yn canolbwyntio mwy ar pH, deunydd organig a mwynau. Mae pH pridd Hywel wedi codi heb ddefnyddio gwrtaith. Mae Hywel yn defnyddio tail buarth (FYM) ac mae wedi cynyddu ei wartheg fel bod ganddo fwy, felly, tyfiant llysieuol a meillion yw ei wrtaith, ynghyd ag 'opsiynau am ddim' haul a glaw.

21. Soniodd Hywel fod nifer ei fyrnau yn eithaf isel i ddechrau gan iddo fynd o 7 bwrn yr erw i 4 bwrn yr erw. Fodd bynnag, y flwyddyn ganlynol cafodd 5 bwrn yr erw ac yna, y llynedd, cafodd 6 bwrn yr erw. Cydnabu Hywel fod pwysau wrth geisio gweithio o fewn yr MSO ond bod gweithio gydag NFFN a phobl eraill o'r un anian wedi rhoi hyder iddo yn y system hon. Cymerodd ran hefyd mewn cyfnewidfa rheoli ar ffermio mewnbwn isel yn 2018 a chyfarfu â ffermwyr hynod ysbrydoledig y mae'n cadw mewn cysylltiad â nhw. Pan welodd Hywel adroddiad Chris am y tro cyntaf yn 2019, roedd yn gwybod ei fod yn iawn ond nid oedd rhan ohono am ei gredu. Disgrifiodd Hywel sut roedd ei drosiant wedi gostwng ond yr elw'n cynyddu, ac mae ei elw'n parhau i gynyddu bob blwyddyn.

22. Dywedodd Hywel ei fod yn credu y bydd mewn sefyllfa dda i gamu i mewn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) arfaethedig newydd. Mae Hywel yn gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr (cig oen, hesbwrn, cig dafad a chig eidion). Nid yw Hywel wedi'i ardystio'n organig ond mae'n ffermio gan ddefnyddio egwyddorion organig. Awgrymodd Hywel fod cyfle i frandio cynnyrch o Gymru fel cynnyrch 'er lles natur'.

23. Mae lleihau mewnbynnau wedi helpu Hywel i leihau'r tebygolrwydd o lygredd hefyd. Disgrifiodd Hywel sut mae llygredd yn costio arian mewn sawl ffordd, nid yn unig drwy ddirwy bosibl ond hefyd drwy wastraffu maetholion gwerthfawr.

24. Gorffennodd Hywel drwy ddweud y bydd natur yn ennill bob amser, felly mae angen i ffermwyr weithio gyda natur nid yn unig ar gyfer bioamrywiaeth, yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd ond hefyd ar gyfer proffidioldeb a chynaliadwyedd.

25. Diolchodd Zoe i Rhys, Chris a Hywel am eu cyflwyniad a'u trafodaeth ddiddorol.

26. Gofynnodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, pa dystiolaeth sydd yna bod natur yn dirywio islaw'r MSO. Esboniodd Chris nad yw natur yn dirywio, mae'n wahanol islaw'r MSO a disgrifiodd yr egni a'r mewnbynnau sy'n gysylltiedig â'r broses. Awgrymodd Chris Mills y gallai fod amgylchiadau lle mae angen natur wahanol, felly gallai dad-ddofi tir fod yn ymateb priodol. Cytunodd Chris ond mae angen i chi ddeall yr egni a gollir wrth fynd ati i gyflawni hynny.

    Dywedodd Rhys ei fod yn debygol bod ei fferm yn gweithredu islaw'r MSO ac nad yw'n manteisio'n llawn ar yr asedau am ddim mae natur yn eu darparu. Dywedodd Rhys fod y fferm tua 450 erw a'i bod yn cael ei phori gan 180 o ddefaid, ond bod angen mwy o bori, nid gan ddefaid ond gan wartheg, i wella. Fodd bynnag, pe baent yn cyflwyno gwartheg, byddai angen iddo fod yn unol ag egwyddorion MSO gyda gwartheg bridiau brodorol gwydn (mewnbwn isel ac allbwn isel) yn hytrach na bridiau masnachol (mewnbwn uchel, allbwn uchel). Mae gweithredu islaw'r MSO yn cael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, gyda gormod o wellt y gweunydd mewn rhai ardaloedd.

27. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, ei bod yn ymwneud â phrosiect a ariennir gan y Llywodraeth o'r enw 'Ein llwybrau byw', a hoffai gysylltu â Rhys, Chris a Hywel i drafod y prosiect. Cytunodd Rhys, Chris a Hywel i'w manylion cyswllt gael eu rhannu.

***PG 02 Ionawr: Bronwen Martin i rannu manylion cyswllt Rhys, Chris a Hywel gyda'r grŵp.***

28. Dywedodd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin, ei bod yn dda clywed am y manteision a’r anfanteision gan Hywel. Roedd yn galonogol clywed am y cynnydd graddol yn nifer y byrnau yr erw ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei rannu ag eraill fel eu bod yn ymwybodol. Roedd yn dda hefyd clywed am y derbyniad a gafodd Hywel gan ffermwyr eraill, sy'n dangos bod rhai ffermwyr o'r farn mai'r unig ffordd ymlaen yw drwy fwy o ddwysáu. Cytunodd Hywel fod llawer o ffermwyr yn credu mai tyfu yw'r unig ffordd. Trafododd Hywel y sefyllfa gydag archfarchnadoedd ac awgrymodd fod defnyddwyr yn bwerus a bod rhaid iddynt fynnu bod ffermwyr yn gweithio gyda natur i gynhyrchu bwyd cynaliadwy.

    Bu Creighton a Hywel yn trafod y sefyllfa gyda ffermydd llaeth yn yr ardal. Soniodd Hywel fod ffermwr llaeth wedi dweud wrtho’n ddiweddar am fanc yn cynnig i roi benthyg mwy o arian iddo i gynyddu maint ei fuches, ond bod y ffermwr wedi gwrthod gan fod ganddo fwy nag y gallai ei fferm a'i deulu ymdopi â nhw. Awgrymodd Zoe y gellid ymchwilio ymhellach i ddylanwad banciau ac eraill ar ffermwyr.

29. Gofynnodd Ed Davies, CNC, faint o aelodau sydd gan NFFN yng Nghymru a sut y maent yn gobeithio cynyddu eu haelodaeth. Dywedodd Rhys fod tua 275 o aelodau yng Nghymru. Ar hyn o bryd, gellir ymuno ag NFFN yn rhad ac am ddim gan fod y prif gronfeydd drwy Sefydliad Esmée Fairbairn. Y ffordd orau o ymgysylltu â ffermwyr yw drwy ymweliadau fferm wyneb yn wyneb, ond mae hynny wedi bod yn anodd oherwydd Covid. Mae cynlluniau ar y gweill i gynyddu ymgysylltiad gydag e-gylchlythyr,

digwyddiadau hyfforddi/gweithdy misol, grŵp trafod ar Facebook a thudalen NFFN ar fforwm ffermio.

Gofynnodd Ed a yw NFFN wedi cysylltu â'r archfarchnadoedd mawr i hybu a marchnata'r math hwn o ddull ffermio. Dywedodd Rhys fod rhai trafodaethau wedi bod ar lefel y DU gyda'r archfarchnadoedd, ond mae angen cynyddu'r ymgysylltiad hwn gan mai nhw yw'r rhai sy'n gallu sbarduno newid gyda safonau ar waith. Atgoffodd Hywel y grŵp bod archfarchnadoedd yn farchnad nwyddau ac felly'n rheoli'r prisiau. Fodd bynnag, gallai archfarchnadoedd helpu i hyrwyddo system ffermio er lles natur. Awgrymodd Hywel y gallai archfarchnadoedd gyfrannu mwy at bolisi a bod yn rhan o'r ateb yn hytrach na sbarduno cynhyrchiant. Awgrymodd Rhys fod y cyfan yn gydgysylltiedig, drwy gynyddu awydd y cyhoedd a defnyddwyr am systemau ffermio cynaliadwy er lles natur, yna bydd yn rhoi mwy o bwysau ar archfarchnadoedd. Soniodd Rhys am Fil Bwyd (Cymru) (arfaethedig) a allai ddod â chyfleoedd cyffrous drwy bolisi bwyd yng Nghymru.

30. Gofynnodd Charlotte Priddy, AHDB, am gynrychiolaeth gwahanol sectorau o fewn aelodaeth NFFN, yn enwedig llaeth. Dywedodd Rhys y byddai angen iddo edrych ar y gronfa ddata aelodaeth, ond mae aelodau llaeth yn NFFN. Mae moch a dofednod yn feysydd nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol yn yr aelodaeth.

    Gofynnodd Zoe a oes gan weithgareddau meincnodi AHDB gyfle i edrych ar y model hwn rydym wedi clywed amdano heddiw. Dywedodd Charlotte fod lle i edrych ar y rhain yn ofalus.

31. Dywedodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, fod yr hyn mae Hywel wedi'i ddisgrifio’n enghraifft o'r system sydd gennym i raddau helaeth yng Nghymru beth bynnag, gydag 80% o ffermydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd llai ffafriol (LFAs) sy'n tueddu i fod yn system mewnbwn isel ac allbwn isel. Gofynnodd Bernard sut y credwch y byddai'n gweithio pe bai'r model hwn mae Hywel yn ei ddefnyddio yn cael ei gyflwyno yn y mwyafrif helaeth o ffermydd ledled Cymru, yn enwedig gan fod y cytundeb masnach rydd wedi'i lofnodi gyda Seland Newydd. O ran ei system flychau, dywedodd Hywel fod rhywfaint o gig yn mynd i ddefnyddwyr, ond bod rhywfaint yn mynd drwy'r farchnad. Disgrifiodd Hywel yr hyn yr oedd yn ei ddeall am y cytundebau masnach ond, yn y bôn, nid yw'n poeni amdanynt. Dywedodd Bernard fod y systemau ffermio a ddefnyddir yng Nghymru yn deillio o wybodaeth gyhoeddedig a adolygwyd gan gymheiriaid, a gofynnodd i Chris a Rhys wneud gwybodaeth yn gyhoeddus fel y gall pobl wneud penderfyniadau. Dywedodd Chris Clark fod ganddynt bapur o'r enw 'Less is more: Improving profitability and the natural environment in hill and other marginal farming systems' (Tachwedd 2019), a bydd papur arall yn cael ei gyhoeddi eleni hefyd. Soniodd Chris am bapur gan Tim Benton hefyd 'The paradox of productivity: agricultural productivity promotes food system inefficiency (2019)' sy'n trafod sut mae gorgynhyrchu’n ddrwg i'r economi ac yn ddrwg i iechyd.

***PG 03 Ionawr: Rhys Evans, NFFN, i rannu dolenni i ragor o wybodaeth i Bronwen Martin, CNC, eu dosbarthu i'r grŵp.***

32. Atgoffodd James Ruggeri, HCC y grŵp fod Hybu Cig Cymru wedi cynnal arolwg meincnodi ychydig flynyddoedd yn ôl. Cydnabu James ei bod yn debygol bod llawer o ffermwyr yng Nghymru yn y tir canol gyda mewnbynnau uchel ond nad ydynt yn cael yr allbynnau mewn gwirionedd. Fodd bynnag, rhaid i chi gofio bod ffermwyr ar naill ben y

raddfa a’r llall, er enghraifft, ffermwyr mewnbwn uchel iawn sy'n broffidiol iawn yn ogystal â rhai ffermwyr mewnbwn isel sy'n broffidiol iawn. Felly, ni ddylem ddweud bod pob ffermwr mewnbwn uchel yn amhroffidiol. Dywedodd Chris Clark am y ffermydd y maent wedi'u gweld, o ddiystyru cymorth, a bod gennych ddiffiniad cywir o 'broffidioldeb', canfuwyd nad ydynt yn broffidiol cyn derbyn cymorth.

## Eitem 5 Dŵr Cymru: Diweddariad Ffosffad ACA

33. Ymunodd Fergus O'Brien a Steve Wilson, Dŵr Cymru, â'r cyfarfod i roi diweddariad am y gwaith Ffosffad ACA.

34. Rhoddodd Fergus drosolwg byr o'r rhaglen ar gyfer cyflawni'r gwelliannau gyda diweddariad penodol ar gam modelu'r rhaglen. Amlinellodd Fergus y buddsoddiadau rhagarweiniol a'r dyddiadau cyflenwi ar gyfer pob un o'r safleoedd hefyd.

35. Trafododd Fergus y data enghreifftiol; beth yw'r data, o ble mae'n dod a sut y caiff ei gynhyrchu. Mae fframwaith modelu'r System Gwybodaeth Graffigol Dosrannu Ffynonellau (SAGIS) yn edrych ar yr holl wahanol ffynonellau ffosfforws (amcangyfrifon eu bod yn dod i lawr yr afon) ac yn edrych ar ba gyfran o hynny y gellir ei dyrannu i wahanol ffynonellau a sectorau. Mae'r data sy'n bwydo i mewn iddo yn rhannu'n ddau fath cyffredinol; data mesur (gan gynnwys data monitro ar gyfer llif, maint ac ansawdd yr hyn sy'n dod o waith carthion) ac ansawdd afonydd (yn seiliedig ar asesiad CNC). Mae rhai eithriadau hefyd sy'n cynnwys achosion o lygredd. Maent yn profi methodoleg newydd ar gyfer Afon Wysg gan fod llifau Gorlif Storm Cyfunol (CSOs) yn Afon Gwy yn fach, felly nid oedd ei angen yno; amcangyfrifir bod CSOs yn cyfrif am 1.5-2% o gyfanswm y ffosfforws ond y bydd ychydig yn uwch yn Afon Wysg. Gelwir data arall yn 'ddata sector' sy'n cynnwys llwythi gwasgaredig nad ydynt o waith garthion. Yn yr achos hwn, maent yn ystyried yr hyn sy'n dod oddi ar dir, yn enwedig tir amaethyddol. Defnyddir Modelu Nodweddion Cynnyrch Ffosfforws a Gwaddodion mewn Dalgylch (PSYCHIC) i amcangyfrif faint o ffosfforws sy'n dod oddi ar dir amaethyddol sy'n cael ei redeg gan ADAS. Mae'r model hwn yn amcangyfrif faint o ffosfforws fydd yn rhedeg oddi ar y tir, yn edrych ar faint fyddai'n dod o dail, faint o ffosfforws sydd yn y gwaddodion ac ati. Fodd bynnag, mae'r model PSYCHIC presennol yn defnyddio data 2010 yn seiliedig ar ddata'r cyfrifiad amaethyddol o'r adeg honno, does dim dewis, a dyma'r data mae'n rhaid iddynt ei ddefnyddio. Mae rhai ffermwyr ar Afon Gwy wedi cymryd camau i leihau eu mewnbynnau ond ni fydd yn egluro’r cynnydd mawr mewn dofednod yn Nalgylch Afon Gwy.

36. Dywedodd Fergus mai cwestiwn allweddol yw 'pa mor dda mae'r model yn cynrychioli'r byd go iawn' a dangosodd broses graddnodi lwyddiannus model Afon Gwy gan ddefnyddio graff. Defnyddir mathau eraill o offer i nodi a yw'r model yn dda neu'n ddrwg, megis 'pa mor dda mae’n ffitio’. Roedd y map hwn yn dangos pwyntiau monitro wedi'u codio â lliw yn seiliedig ar lefel y cytundeb rhwng gwerthoedd crynodiad a arsylwyd ac a efelychwyd.

37. Dangosodd Fergus ymarfer lle roeddent yn cymharu dwy sefyllfa yn Nalgylch Afon Gwy Uchaf; un â mewnbynnau gwaith carthion yn unig ac un heb fewnbynnau gwaith carthion (mewnbynnau amaethyddol yn unig). Y neges allweddol yw na all Dŵr Cymru wneud hyn ar ei ben ei hun; rhaid iddo fod yn ddull cydgysylltiedig amlsector o wella ansawdd dŵr.

38. Trafododd Fergus y cynnydd o ran modelu Afon Wysg, gan gynnwys yr heriau o ran graddnodi.

39. Crynhodd Fergus ganlyniadau AMP26 rhagarweiniol o fodel Afon Gwy. Caiff y modelau hyn eu cynhyrchu, a bydd y data enghreifftiol yn cael ei rannu wrth iddo ddod ar gael.

40. Yn ôl Mark Squire, CNC, o ran y dull a ddefnyddiwyd, mae CNC wedi gwneud y gwaith graddnodi erioed ar gyfer y modelu mae Dŵr Cymru yn ei wneud ar ôl digwyddiad. Yr hyn sydd wedi gweithio'n dda yma yw bod y graddnodi wedi'i wneud ochr yn ochr â Dŵr Cymru, felly mae CNC wedi bod yn ddeinamig yn y ffordd y mae wedi addasu'r model hwnnw, sydd wedi golygu bod cwestiynau gan y rheoleiddiwr wedi gallu cael eu bwydo i mewn yn gynnar. O ran AMP, mae yna gynllunio adolygiad prisiau 2024 ac mae'n gweithio gyda'r cwmnïau dŵr i sicrhau bod y buddsoddiad yn y cyfnod AMP nesaf.

41. Dywedodd Steve Wilson, Dŵr Cymru, y bydd yn allweddol sefydlu Byrddau Rheoli Maetholion ar gyfer yr afonydd. Bydd angen llawer o waith partneriaeth i wella ansawdd dŵr ac mae llawer o gyfleoedd i wneud hyn. Y peth allweddol y maent yn gweithio arno yw cylchoedd cynllunio cyfnodau buddsoddi. Soniodd Steve fod llawer o ddalgylchoedd bach a gwaith trin dŵr gwastraff bach, felly mae llawer o safleoedd bach i edrych arnynt. Bydd Dŵr Cymru yn ceisio gwneud mwy na'r disgwyl, ond ni ddylai cwsmeriaid Dŵr Cymru orfod talu am fwy na'r hyn sy'n deg. Dyma lle bydd cydweithio â'r Byrddau Rheoli Maetholion ar yr afonydd hyn yn helpu i wneud cynnydd.

42. Gofynnodd Adriana Kiss, Llywodraeth Cymru, pryd y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ac ar gael i'r cyhoedd. Dywedodd Fergus eu bod yn dal i benderfynu sut beth fydd yr adroddiad annhechnegol. Gofynnodd Zoe a fydd yr wybodaeth dechnegol ar gael i'r rhai sy'n gallu ei deall. Dywedodd Fergus y bydd yr wybodaeth enghreifftiol a'r setiau data ar gael ar gyfer tryloywder.

43. Dywedodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, ei bod yn galonogol gweld y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at reoli'r broblem o safbwynt y diwydiant dŵr a'r ffaith y bydd cyllid ar gael i'w gyflawni, gobeithio. Gofynnodd Chris ble mai'r broses gyfochrog i leihau ffosfforws o ffynonellau amaethyddol ac ehangach a sut y caiff ei ddwyn ynghyd mewn ffordd gydgysylltiedig i sicrhau gwelliannau. Dywedodd Mark Squire ei bod yn debyg mai sefydlu'r Byrddau Rheoli Maetholion yw'r ateb. O ran y cyllid, byddai'n rhaid i ni weithio gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar sut y caiff rhai o'r gwelliannau amgylcheddol hyn eu hariannu. Dywedodd Adriana Kiss, Llywodraeth Cymru, y byddai angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd fod yn un o'r opsiynau cyflawni allweddol ar gyfer y dyfodol. Mae Tîm Ansawdd Dŵr Llywodraeth Cymru wedi sicrhau Cyllid Cyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf hefyd, felly bydd cyllid ar gael ar gyfer gwelliannau i ansawdd dŵr. Gofynnodd Chris a fyddai'r cyllid hyd yn oed yn agos at y swm sydd ei angen i fynd i'r afael â hyn. Ni allai Adriana wneud sylw ar faint o arian sy'n mynd o'r ochr amaethyddiaeth a thrwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae cyllid cyfalaf yn gyfyngedig, felly ceir proses flaenoriaethu a'r agweddau pwysicaf lle gallant sicrhau gwelliannau o ran ansawdd dŵr. Dywedodd Mark fod yr arian cyfalaf mae CNC yn ei dderbyn a gaiff ei roi tuag at raglenni i'r dyfodol wedi'i dargedu at wneud gwelliannau i ansawdd dŵr mewn rhai afonydd ACA, dalgylchoedd cyfle a'r ffordd orau o gyflawni hynny. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod y grŵp hwn wedi'i sefydlu i ddod â'r holl wahanol bartïon at ei gilydd. Mae arian yn un o'r rhannau allweddol bob amser ond, drwy feddwl am y mathau o wahanol ddulliau, gallwn ddylanwadu ar y

marchnadoedd, banciau, arianwyr, ffermwyr ac ati. Dywedodd Chris fod yr hyn rydym newydd ei glywed gan Dŵr Cymru wedi'i gynllunio'n dda, wedi'i strwythuro a'i fod, gobeithio, wedi sicrhau ffynonellau cyllid, ond nad ydym wedi gweld hyn ar yr ochr amaethyddol eto a bod angen mwy o sicrwydd. Ffyrdd eraill, bydd y buddsoddiadau'n cael eu gwneud ar ochr y diwydiannau dŵr ond bydd problem fawr o hyd. Dywedodd Bob mai dyna lle mae'n rhaid i ni symud hyn yn ei flaen a rhoi'r rhaglen ar waith. Mae hyn yn edrych ar ateb terfynol ond mae mater hefyd o ran ble y daw'r pethau hyn yn y lle cyntaf, er enghraifft, gallai'r cynnydd mewn costau ar gyfer gwrtaith atal rhai pobl a gwthio rhai tuag at system ffermio wahanol megis system NFFN. Ond mae yna gynhyrchion y mae defnyddiwr ar yr aelwyd yn eu defnyddio a all gynnwys ffosffad hefyd ac sy'n cael eu fflysio i lawr y toiled yn y pen draw. Efallai y bydd angen edrych ar y mathau hynny o bethau a dechrau cymell neu anghymell y defnyddiau hynny (gan edrych ar ben blaen y system yn hytrach na'r diwedd). Disgrifiodd Steve sut mae Dŵr Cymru wedi cynnal rhai treialon yn ymwneud â chynhyrchion sy'n cynnwys ffosfforws (glanedydd golchi, powdwr golchi, tabledi golchi llestri ac ati). Yn y pen draw, mae ymddygiad cwsmeriaid gartref yn anodd iawn ei newid.

44. Soniodd Fergus fod un o'r prif gynhyrchwyr ieir yn Swydd Henffordd wedi lleihau'r ffosfforws mewn porthiant ieir y mae'n ei ddefnyddio/cyflenwi. Mae'r cwmni'n datblygu cynlluniau hefyd i adfer ac ailgylchu'r holl dail ieir i'w roi wedyn drwy broses i adfer y ffosfforws. Yn ystod cyfarfod â Dŵr Cymru, cydnabu'r cynhyrchydd ei fod yn rhan o'r broblem ond hefyd yn rhan o'r ateb. Mae Fergus yn gobeithio clywed mwy am y gwaith hwn yn fuan.

45. Gofynnodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, pam eu bod wedi'u cyfyngu i ddefnyddio data 2010 ac a oes unrhyw ystyriaeth i waith RePhoKUs: Re-focusing Phosphorus use in the UK food system (Prifysgol Caerhirfryn) a'r dull hwn. Dywedodd Fergus fod gan y fethodoleg ar gyfer y modelu brosesau llym iawn, ac mai'r set ddata fwyaf cynhwysfawr yw'r set ddata PSYCHIC. Nid Dŵr Cymru a CNC yn unig sy'n defnyddio modelu SAGIS, fe'i defnyddir yn genedlaethol gan reoleiddwyr a chwmnïau dŵr. Cytunodd Fergus ei fod yn broblem. O ran gwaith RePhoKUs, mae'n ddarn gwych o waith ac mae'n rhoi hyder yn y cyfeiriad rydym yn mynd iddo, a byddant yn edrych arno wrth iddynt symud ymlaen, ond mae'n broses hir. Mae'r set ddata PSYCHIC yn set ddata sy'n cael ei rheoli'n dda a'i deall yn dda. Dywedodd Andrew ei bod yn bwysig cydnabod lle mae diffygion yn y model a'u hystyried.

46. Gofynnodd Bernard a oedd cwsmeriaid Dŵr Cymru yn cael eu rhyddhau o'r gost o ymdrin â'r ffosffad amaethyddol, a yw'r gallu ganddynt yn y seilwaith gwaith trin i ymdrin â'r gwastraff ar y fferm pe bai arian ar gael i helpu hynny. Dywedodd Steve y byddent yn edrych ar ddau beth, mae un o safbwynt maetholion. Os ydynt yn gwybod beth fydd yn ei gostio i dynnu 1 miligram y litr o ffosfforws allan o waith trin dŵr gwastraff, ond bod rhai darnau lle gallent dynnu mwy o ffosfforws yn effeithiol drwy wario'r arian cyfatebol hwnnw gyda ffermwyr i ffensio lleiniau clustogi, gwneud gwaith plannu neu wneud gwaith gwella rheoli tir, er enghraifft, i feddwl am storfeydd slyri. Dywedodd Steve nad oes ganddynt broblem o ran gwario'r arian hwnnw y byddent wedi ei wario mewn ffyrdd eraill os bydd hynny'n cael gafael ar fwy o ffosfforws. O ran y gallu i ymdrin â gwastraff, po fwyaf o ffosfforws y maent yn ei dynnu mewn gwaith trin carthion, po fwyaf o ffosfforws sydd yn y llaid carthion ac, ar hyn o bryd, mae'r holl laid carthion yng Nghymru yn cael ei wasgaru'n ôl i amaethyddiaeth yn lle gwrtaith. Mae'r broses hon yn cael ei rheoli'n ofalus iawn. Yr hyn y mae angen i ni feddwl amdano yw beth yw'r strategaethau hirdymor ar gyfer y gwastraff hwnnw hefyd. Yn ôl Steve, ar hyn

o bryd, nid oes llawer o bosibiliadau i Dŵr Cymru allu cymryd y tail anifeiliaid hwnnw a gwneud rhywbeth ag ef.

***PG 04 Ionawr: Bronwen Martin, CNC, i rannu cyflwyniad Ffosffad ACA Dŵr Cymru gyda'r grŵp.***

## Eitem 6 Cyflwyniad Cig Cymru: Y Ffordd Gymreig

47. Croesawodd Zoe John Richards o Hybu Cig Cymru (HCC) i'r cyfarfod i drafod adroddiad HCC Y Ffordd Gymreig - Ffermio ac amgylchedd cynaliadwy.

48. Lansiwyd 'Y Ffordd Gymreig' ym mis Rhagfyr 2020 ac mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd economaidd a diwylliannol cynhyrchu cig coch yng Nghymru a'r manteision amgylcheddol cadarnhaol y mae amaethyddiaeth yn eu cefnogi hefyd. Mae'r adroddiad yn archwilio'r gwahaniaethau mewn cylchoedd bywyd nwyon tŷ gwydr a'r goblygiadau i'r sector cig coch.

49. Ym mis Hydref 2021, lansiodd HCC Perffeithio'r Ffordd Gymreig sy'n ganllaw ymarferol i'r diwydiant ar ffermio defaid a chig eidion cynaliadwy.

50. Yn y ddogfen, maent yn tynnu sylw at feysydd i'w targedu ac yn awgrymu y gellir cyflawni diwydiant cig coch sy'n gynyddol gynaliadwy yng Nghymru os gwneir ymdrechion i wneud y gorau o gynhyrchiant, rheoli glaswelltir, dal a storio carbon ac ynni adnewyddadwy a lleihau'r effaith ar adnoddau naturiol. Edrychodd y cyhoeddiad ar y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol hefyd ac, o'r ffigurau hynny, edrychwyd ar senarios gwahanol drwy fodelu gwelliannau posibl ar gyfer y gwahanol sectorau.

51. Edrychodd y gwaith ar asesiad cylch bywyd drwy gynnal archwiliad carbon o 20 fferm ledled Cymru. Cynhaliwyd gwaith archwilio carbon gan Brifysgol Bangor (maent yn cynnwys atafaelu yn eu Teclyn Ôl Troed). Roedd y ffermydd a ddewiswyd yn cynrychioli sector cig coch Cymru gyda chymysgedd o systemau, mathau a gorffeniad. Dangosodd John ganlyniadau'r archwiliad carbon gan ddefnyddio graff. Dangosodd y canlyniadau fod gan ffermydd mynydd a archwiliwyd lai o allyriadau nag ucheldir/iseldir. Gwelwyd yr atafaelu mwyaf ar ffermydd mynydd ac, er nad oedd yn hawdd cymharu, dangosodd y canlyniadau y gall ffermydd Cymru gynhyrchu cig eidion a chig oen gydag ôl troed carbon isel.

52. Mae negeseuon allweddol y diwydiant yn cynnwys:

- Mae'r newid yn yr hinsawdd yn her i bob diwydiant, gan gynnwys amaethyddiaeth
- Nid oes bwled arian, dim ond cyfres o newidiadau/gwelliannau cynyddrannol
- Mae gwella iechyd a maeth anifeiliaid, mwy o ddefnydd o wybodaeth genetig a gwell defnydd o laswelltir i gyd yn allweddol i'r sector cig eidion a defaid. Meysydd allweddol eraill i'r diwydiant yw rheoli maetholion a'r angen i fusnesau gynyddu lefel meincnodi
- Mae'n bwysig chwilio am gamau gweithredu newydd ac arloesol i gefnogi'r diwydiant i liniaru allyriadau cyffredinol

53. Mae John yn casglu’r canlynol:

- Dylai polisi ynghylch amaethyddiaeth a'r newid yn yr hinsawdd ystyried ymchwil newydd ar effaith gymharol gwahanol nwyon tŷ gwydr
- P'un a ddefnyddir cyfrifiadau methan hen neu newydd, mae potensial i amaethyddiaeth leihau ei allyriadau a chynyddu cyfraniad cadarnhaol at liniaru'r newid yn yr hinsawdd
- Drwy fanteisio ar ei fanteision naturiol, gall 'Y Ffordd Gymreig' o gynhyrchu cig oen a chig eidion fod yn esiampl fyd-eang o system allyriadau isel gynaliadwy
- Gall effaith ffermio mynydd yn arbennig fod yn is nag a adroddwyd gan astudiaethau blaenorol
- Nid yw newidiadau radical mewn defnydd tir yn cynnig y ffordd fwyaf effeithiol o wneud y mwyaf o gyfraniad Cymru wledig at liniaru'r newid yn yr hinsawdd
- Dylai Cymru flaenoriaethu mesurau effeithlonrwydd sy'n lleihau gollyngiadau, gan gynnal cynhyrchiant ar yr un pryd
- Gall diwydiant cig oen a chig eidion cynaliadwy yng Nghymru gynnig manteision cadarnhaol o ran iechyd pridd a bioamrywiaeth hefyd

54. Dywedodd John y byddai'n trefnu bod y sleidiau ar gael i'w rhannu â'r grŵp.

***PG 05 Ionawr: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu cyflwyniad John ar 'Y Ffordd Gymreig’.***

55. Dywedodd Bob fod un o'r graffiau'n dangos bod priddoedd yn ychwanegu at y cynhyrchiant carbon a gofynnodd a oedd hwnnw'n ddeunydd a gollwyd o briddoedd. Cadarnhaodd John hynny, yn ogystal â rheoli pridd a rhai elfennau o'r defnydd o wrtaith. Mae profi pridd yn bwysig ond mae gweithredu rhywbeth wedyn a gweithredu ar yr wybodaeth sydd ar gael yn bwysig iawn.

56. Gofynnodd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin, a fu unrhyw gynnydd yn nifer yr aelodau sy'n mynd allan o'r sector ac i'r sector laeth. Dywedodd John fod ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos gostyngiad yn nifer y ffermwyr cig eidion a defaid dros y 5-10 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae nifer y defaid yng Nghymru yn gymharol sefydlog. Os edrychwch chi ar yr ystadegau ar gyfer ffermydd llaeth yng Nghymru hefyd, mae eu niferoedd hwythau wedi gostwng hefyd ond mae nifer y gwartheg ar y ffermydd sy'n weddill wedi cynyddu. Dywedodd John fod llai o wartheg sugno hefyd os cymharwch chi’r ystadegau, sy'n peri pryder oherwydd bod ganddynt rôl bwysig, yn enwedig mewn systemau ffermio ucheldir a mynydd, nid yn unig ar gyfer rheoli tir fferm a rheoli pori ond hefyd ar gyfer bioamrywiaeth a rheoli amgylcheddol.

    Gofynnodd Creighton a ydynt wedi gweld cynnydd yn nifer yr heffrod magu ar ffermydd llaeth yn yr ucheldiroedd. Dywedodd John fod cyfle i wneud hyn ond nid yn yr ucheldiroedd yn benodol.

57. Gofynnodd Zoe i John a yw aelodau HCC yn fwy ymwybodol o lygredd ac a ydynt yn cydnabod nad rhan o'r broblem yn unig ydynt ond eu bod yn rhan o'r ateb hefyd. Dywedodd John fod pobl yn llawer mwy ymwybodol o lygredd nawr ac, fel diwydiant, mae pobl yn dod yn fwy ymwybodol o werth eu maetholion, ynghyd â'r cyfleoedd i gael mwy o gylch ar y fferm i wneud gwell defnydd ohonynt. Diolchodd Zoe i John am ymuno â'r cyfarfod a rhannu gwybodaeth am 'Y Ffordd Gymreig'.

## Eitem 7 Diweddariad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fesurau Amgen

58. Rhoddodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru (Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fesurau Amgen) ddiweddariad byr ar gynnydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

59. Cafwyd tri chyfarfod ac mae'r grŵp wedi bod yn gweithio drwy'r rheoliadau presennol fel bod pawb yn deall beth ydynt a beth yw'r diben.

60. Mae'r grŵp wedi cynnal ymarfer asesu ar effeithiolrwydd posibl ac mae rhai o'r materion yn ymwneud â rhai o'r rheoliadau. Mae sylwadau wedi'u crynhoi mewn taenlen. Dywedodd Chris y byddai'n croesawu unrhyw sylwadau gan y rhai yn Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru am unrhyw reoliad(au) penodol.

61. Y camau nesaf yw gwerthuso'r hyn rydym am ei gyflawni drwy ystyried dau bwynt:

- Atal llygredd yn y tarddle (e.e. o slyri)
- Atal llygredd gwasgaredig (e.e. o nitrad gormodol)

62. Mae'r grŵp hwn wedi nodi tri maes allweddol i'w harchwilio ymhellach:

- Storio
- Gwasgaru
- Capasiti cario'r tir/terfynau

63. Dywedodd Chris fod sawl ffactor arall i'w hystyried, yn enwedig o ran sut y caiff pethau eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys gorfodadwyedd, monitro, cadw cofnodion, eithriadau ac ymarferoldeb. Bydd y grŵp yn defnyddio'r trafodaethau ynghylch y rheoliadau presennol i edrych o fewn y fframwaith hwnnw ynghylch sut y gallech ddarparu mesurau amgen neu'r un mesurau efallai mewn ffordd ychydig yn wahanol.

64. Ni fydd y grŵp yn diystyru edrych ar rai o'r materion ehangach, er enghraifft, a ddylai'r rheoliadau hyn gael eu cymhwyso ledled Cymru neu a ddylent gael eu targedu fwy.

65. O ran y llinell amser, dylai'r adroddiad drafft gael ei gynhyrchu erbyn mis Mehefin gyda'r nod o adrodd yn ôl i Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yng nghyfarfod mis Mehefin. Byddai sylwadau gan y grŵp ehangach yn cael eu croesawu ym mis Gorffennaf a byddai adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Medi. Y dyddiad cau terfynol ar gyfer cyflwyno mesurau amgen i Lywodraeth Cymru yw mis Hydref 2022.

66. Dywedodd Chris fod negeseuon a chamau gweithredu allweddol wedi'u cofnodi o bob un o'r cyfarfodydd ac y byddent yn hapus iddynt gael eu rhannu ag Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Soniodd Chris fod croeso hefyd i aelodau gysylltu ag ef i drafod.

***PG 06 Ionawr: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu nodiadau cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

67. Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## Eitem 8 Unrhyw Fater Arall

68. Soniodd Zoe fod Farming Today yn rhoi sylw i lygredd drwy'r wythnos. Soniodd Marc Williams fod Chris Thomas, CNC, wedi cael ei gyfweld gan ITV ynglŷn â'r Prosiect Llaeth.

69. Soniodd Bob am y diweddariad ar gladdfeydd silwair a'r gweithdrefnau. Dywedodd Bob fod ganddo adroddiad ysgrifenedig byr y gellir ei gynnwys yn y cofnodion:

Pwnc - Silage clamps not constructed to the required standards in the Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021 and Cross Compliance

- 1 Ebrill 2021 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (CoAPR) gyda chyfnod pontio.
- Mae CoAPR wedi'i gynnwys o fewn Trawsgydymffurfio o dan Ofyniad Rheoli Statudol 1 - Diogelu Dŵr (SMR1) pan fydd mesurau'n cael eu trosi'n gyfraith.
- Mae cynnwys CoAPR o fewn Trawsgydymffurfio wedi'i nodi mewn cyfathrebiadau sy'n ymwneud â chyflwyno CoAPR.
- Mae angen i'r gofynion adeiladu ar gyfer pob claddfa silwair a adeiladwyd ar ôl 1 Mawrth 1991 fodloni Rheoliad 26 CoAPR. Mae unrhyw gladdfeydd a adeiladwyd cyn 1 Mawrth 1991 ond sydd wedi'u hailadeiladu'n sylweddol neu eu hehangu'n sylweddol (gweler atodiad 4 yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru) yn colli'r eithriad o Reoliad 26 CoAPR a dylid eu hadeiladu i'r safonau adeiladu fel y'u nodir yn atodlen 5 o CoAPR ac yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mae gofynion adeiladu COAPR ar gyfer claddfeydd silwair yn union yr un fath â'r rhai yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 fel y'u diwygiwyd. Nid yw hwn yn ofyniad cyfreithiol newydd, ond mae'n ofyniad newydd o fewn SMR1 Trawsgydymffurfio.
- Mae Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW) Llywodraeth Cymru yn archwilio canran o ffermydd (tua 200) sy'n hawlio taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau amaeth-amgylcheddol ar y tir am gydymffurfiaeth â Safonau Trawsgydymffurfio, gan gynnwys SMR1.
- Nodir bod ffermydd sy'n torri Safonau Trawsgydymffurfio wedi torri rheolau, a gallant wynebu cosb ariannol fel y nodir yn y Safonau Dilysadwy Trawsgydymffurfio: safonau dilysadwy 2021 | LLYW.CYMRU
- Mae CNC yn ymwybodol bod Arolygiaeth Wledig Cymru wedi canfod amryw o achosion o dorri SMR 1 (CoAPR) yn ystod 2021 mewn perthynas â safonau adeiladu a nodir yn atodlen 5 o CoAPR ac Atodiadau 4 a 5 o ganllawiau Rheoliadau

[Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru): canllawiau ar gyfer ffermwyr a thirfeddianwyr | LLYW.CYMRU]

70. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, fod y nifer sy'n manteisio ar y clinigau 'Seilwaith' ar ffermydd y mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn eu hariannu wedi bod yn wych. Mae'r adroddiadau o'r ymweliadau ar y fferm wedi bod yn dod yn ô ac maent yn gadarnhaol. Mae'r ymgynghorydd wedi bod ar ffermydd yn nodi unrhyw faterion nad ydynt yn cyrraedd y safon bresennol a sut i fynd ati i unioni hynny. Dywedodd Einir fod cyllid ar gael o hyd a bod ceisiadau'n dal i fod ar agor a dywedodd y byddai'n dda pe gallai aelodau Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ledaenu'r gair – [clinigau un-i-un ar y fferm gan Cyswllt Ffermio].

71. Rhoddodd Marc yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau i ddrafftio llythyr at y Gweinidog yn tynnu sylw at faterion tenantiaeth. Mae'r llythyr wedi'i ddrafftio a bydd Marc yn ei ddosbarthu yn dilyn y cyfarfod.

***PG 07 Ionawr: Marc Williams, CNC, i ddosbarthu'r llythyr at y Gweinidog ynghylch materion tenantiaeth.***

72. Soniodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, y bydd Spencer Conlon yn dechrau rôl newydd yn Llywodraeth Cymru ac na fydd yn mynychu cyfarfodydd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol. Dywedodd Andrew yr hoffai Spencer ddiolch am yr help, y gefnogaeth a'r heriau a gafodd dros y blynyddoedd. Gofynnodd Zoe i Andrew longyfarch a diolch i Spencer ar ei rhan.

73. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Llun 21 Chwefror 2022.

## Diwedd y cyfarfod